Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd am 5.30 pm yn Neuadd y Penrhyn, Bangor ar **19 Ionawr 2026.**

**PRESENNOL:-** Cyng. John Wynn Jones (Cadeirydd), Cyng. Steve Bell, Cyng Gareth Parry, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Jackie Spence, Cyng John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig).

**F30/ 25 YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Medwyn Hughes.

**F31/25 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim

**F32/25 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD 8 RHAGFYR 2025**
*Roedd cofnodion cyfarfod 8 Rhagfyr 2025 wedi'u dosbarthu ymlaen llaw.*
**Penderfynwyd:** cymeradwyo cofnodion cyfarfod 8 Rhagfyr fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**F33/25 TRAFOD Y GYLLIDEB FLYNYDDOL 2026-2027.**
*Roedd tri opsiwn cyllidebol wedi'u cylchredeg ymlaen llaw, fel opsiynau i'w trafod.*
Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Ddinas dri opsiwn cyllideb i'w trafod. Roedd y cyntaf yn golygu cynnydd o 3.5% yn y praesept, a fyddai'n gyson â'r ffigur chwyddiant blynyddol cenedlaethol. Roedd yr ail opsiwn yn golygu cynnydd o 5% yn y praesept, a fyddai, oherwydd chwyddiant blynyddol cenedlaethol a gostyngiad yn yr eiddo sy'n talu treth y Cyngor yn y Ddinas, yn arwain at yr un pŵer gwario ag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y trydydd opsiwn yn golygu cynnydd o 7.5% yn y praesept, a fyddai'n arwain at gynnydd bach ym mhŵer gwario'r cyngor yn 2026-2027. Byddai'r effaith ar unigolion yn cyfateb i 30 ceiniog y cartref y mis. Dilynwyd hyn gan drafodaeth fanwl ar y cynnwys a'r gwahaniaethau rhwng pob opsiwn a'r llinellau cyllideb a gynhwysir ynddynt.
**Penderfynwyd:** Argymell cyllideb flynyddol ar gyfer 2026-2027 i'r cyngor, gyda chynnydd o 5% ar y flwyddyn ddinesig gyfredol.

**F34/25 CYMERADWYO'R PRAESEPT AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2026-2027.**
Yn dilyn trafodaethau ar yr eitem uchod.
**Penderfynwyd:** Argymell praesept o £ 631,302.00 i'r cyngor ar gyfer 2026-2027.

**F35/25 CYMERADWYO'R RHESTR TALIADAU AR GYFER**
**i) Rhagfyr**
*Roedd rhestr daliadau mis Rhagfyr wedi'i dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau.*
Dadansoddodd y Pwyllgor y rhestrau taliadau a thrafod nifer o daliadau.
**Penderfynwyd:** cymeradwyo'r rhestr daliadau ar gyfer mis Rhagfyr.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.35 pm**
CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR